


Fframwaith Arfer Proffesiynol, Yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd

Nodiadau canllaw ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud cais (gan ddefnyddio ffurflen PL3b) i Fwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau ac Achredu PCYDDS am **Gredyd Cyffredinol**.



Llun o John Dewey (Ffynhonnell: vita-learn.org/wp-content/uploads/2020/06/john-dewey-quote-2.jpg)

Sarah Loxdale a Lowri Harris

s.loxdale@uwtsd.ac.uk

l.m.harris@uwtsd.ac.uk

08/10/2024

Fersiwn 6.0_Cyffredinol

Mynegai

NODIADAU CANLLAW AR GYFER CEISIADAU SY’N YMWNEUD Â CHREDYD CYFFREDINOL	3
Cam 1:	3
Cam 2:	4
Cam 3:	5
Cam 4:	8
Cam 5:	9
Rhestr Wirio	9
Atodiadau	10
Atodiad 1 – Enghreifftiau o Ddeilliannau Dysgu	10
Atodiad 2 – Enghraifft o ffurflen PL3b – adran 3	17

NODIADAU CANLLAW AR GYFER CEISIADAU SY’N YMWNEUD Â CHREDYD CYFFREDINOL

Camau ar gyfer Cwestiwn 3 ar ffurflen PL3b	Canllawiau pellach / enghreifftiau
Cam 1: Cyflwyniad ffurfiol (Rwy’n gwneud cais i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i hawlio X credyd ar Lefel X am y dysgu drwy brofiadau y gwnes i ei gaffael wrth ymgymryd â’m rôl fel XXX). Paragraff byr yn cyflwyno’r cais am ddysgu drwy brofiadau a sut y gwnaethoch gaffael y dysgu	<u>Enghraifft</u> Rwy’n gwneud cais i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i hawlio 60 credyd ar Lefel 7 am y dysgu drwy brofiadau y gwnes i ei gaffael wrth ymgymryd â’m rôl fel XXX. Maes Dysgu: Arweinyddiaeth Strategol. (60 credyd ar Lefel 7). Rwyf wedi dangos tystiolaeth o’m dysgu o fewn y <i>Deilliannau Dysgu canlynol (GWELER YR ATODIADAU AM RAGOR O ENGREIFFTIAU O DDEILLIANNAU DYSGU)</i>: 1. <i>Cyfathrebu Strategol: Cyfathrebu’n effeithiol fel arweinydd strategol o fewn meysydd difrifol a chymhleth yn ymwneud â diogelu.</i> 2. <i>Gwneud Penderfyniadau Strategol: Dadansoddi, cymhwyso a gwerthuso’n feirniadol y defnydd o sgiliau gwneud penderfyniadau strategol ar draws amrywiaeth o sefyllfaoedd seiliedig ar waith.</i> 3. <i>Arwain Newid ar Lefel Strategol: Dadansoddi, cymhwyso a gwerthuso’n feirniadol arddulliau arwain a damcaniaethau rheoli newid i arwain newid ar lefel strategol.</i>
I gael adnoddau ychwanegol i’ch cynorthwyo wrth gwblhau cais PL3b, ewch i dudalen Moodle ‘PL3b Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau’ Cwrs: PL3b Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiadau (pcydds.ac.uk) 	Rwyf wedi profi datblygiad personol a phroffesiynol sylweddol yn y maes <i>Arweinyddiaeth Strategol</i> yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Felly, rwyf wedi dewis dangos tystiolaeth o’m datblygiad drwy adfyfrio ar y ‘<i>daith ddysgu</i>’ helaeth rwyf wedi bod arni dros y pum mlynedd diwethaf, a’i dadansoddi’n feirniadol, a’i gwerthuso. Mae ymgymryd â’r modwl Cydnabod ac Achredu Dysgu Blaenorol (RAL) wedi bod yn broses ddysgu hynod werthfawr ynddo’i hun, gan ei bod wedi caniatáu i mi adfyfrio’n ddwfn ar fy nghynnydd, a’i ddeall yn llawn, nodi meysydd dysgu newydd, yn ogystal â datgelu dysgu nad oeddwn wedi rhoi clod i fi fy hun amdano, neu wedi’i esgeuluso.

Cam 2:

Nodwch a rhestrwch set o ddeilliannau dysgu a fydd yn helpu i nodi'r dysgu sy'n cael ei ddadansoddi'n feiriadol. Bydd y deilliannau hefyd yn eich helpu i strwythuro eich cais. Cofiwch ystyried deilliannau dysgu sy'n briodol i'r lefel (mae Tacsonomeg Bloom a Disgrifyddion Lefel SEEC yn adnoddau defnyddiol).

[SEEC-Descriptors Update-May-2021.pdf](#)

[Blooms Taxonomy - Best.pdf \(utica.edu\)](#)

[Anderson-and-Krathwohl Revised-Blooms-Taxonomy.pdf \(quincycollge.edu\)](#)

**Canllaw**

Mae deilliannau dysgu'n dangos, mewn brawddeg neu ddwy, yr hyn rydych wedi'i ddysgu; dylent fod yn glir ac yn gryno. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio geiriau y gellir eu mesur a nodir yn Nhacsonomeg Bloom.

Wrth ddatblygu deiliant dysgu, ystyriwch y bydd eich datganiad yn dechrau gyda'r geiriau hyn, 'O ganlyniad i'r dysgu yr ymgymerais ag ef yn y gweithle, rwyf bellach yn gallu....'

Enghreifftiau

O ganlyniad i'r dysgu yr ymgymerais ag ef yn y gweithle, rwyf bellach yn gallu cynllunio, dylunio a datblygu cynllun marchnata.

Canllaw

Wrth wneud cais am gredyd cyffredinol neu benodol, mae'n bwysig cofio bod 1 pwynt credyd yn cyfateb i 10 awr o astudio tybiannol.

Er mwyn dangos hyn yn eich cais, mae'n bosibl y byddwch eisiau ychwanegu llinell amser fel ei bod yn hawdd i'r marciwr nodi ymhle mae'r oriau o ddysgu drwy brofiadau wedi'u caffael 'yn gyffredinol'. Sylwch nad yw'n ofynnol i chi gyflwyno dadansoddiad fesul awr o ble mae'r dysgu wedi'i gaffael.

Enghraifft

Mae cais PL3b am 40 credyd yn cyfateb i 400 o oriau o ddysgu drwy brofiadau.

Cam 3:

Dadansoddwch yn feirniadol ac adfyfyrwch ar y dysgu sydd wedi'i gaffael ar gyfer pob deilliant dysgu. Dylai hwn fod yn ddadansoddiad eithaf helaeth o'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd rydych yn gwneud cais am gredyd amdanynt. Mae'n bosibl y byddwch eisiau archwilio goblygiadau ehangach ac archwilio sut y gellir defnyddio'r dysgu hwn mewn lleoliadau eraill, e.e. gellir defnyddio rheoli gwrthdaro yn y gwaith, gartref a hefyd mewn unrhyw sefydliadau gwirfoddol rydych yn gweithio gyda nhw.

Rhestrwch unrhyw hyfforddiant neu gyrsiau datblygiad proffesiynol perthnasol a fynychwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Cymerwch y cyfle i nodi amrywiaeth o ddamcaniaethau academiaidd priodol sy'n cefnogi eich darn o waith a thynnu ar ystod o dystiolaeth y gellir ei hychwanegu fel atodiad i'ch cais.

Cofiwch osgoi ysgrifennu'n ddisgrifiadol. Gall defnyddio model adfyfyriol helpu i strwythuro'r ymateb i bob deilliant dysgu. Lle bo'n briodol, nodwch y cyfnod amser ar gyfer eich dysgu, e.e. Dechreuais y prosiect ym mis Ionawr 2019, a daeth i ben ym mis Mai 2019. Yn ystod y cyfnod hwnnw roeddwn yn canolbwyntio 60% o'm hamser ar ddatblygu fy sgiliau rheoli prosiect.

Wrth ystyried y cyfnod sy'n cael ei ddadansoddi, ystyriwch fel rheol gyffredinol y gallwch ddadansoddi 5 mlynedd diwethaf eich gyrfa yn feirniadol. Fodd bynnag, ar gyfer ceisiadau pwnc-benodol mae'n bosibl y gellir ymestyn y cyfnod hwn. Bydd eich tiwtor PL3b yn gallu eich cynghori fel y bo'n briodol.

Mae'n bwysig bod pob cais PL3b yn dangos cymhwysedd y dysgwr i ysgrifennu'n adfyfyriol a'i allu i ddadansoddi arfer seiliedig ar waith yn feirniadol, gan arwain at nodi dysgu drwy brofiadau.

Bydd y fideo hwn yn rhoi cyflwyniad i chi i ysgrifennu adfyfyriol - [Reflective Writing - YouTube](#)

Levels of Reflection:

STAR RATING

- *Critical reflection with recommendations and practical and literary evidence*
- *Catalogue reflection with some practical evidence/examples*
- *Descriptive with some reflection/evaluation*
- *Descriptive*

designed by freepik.com

 Prifysgol Cymru
Y Ddrindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau
Transforming Education; Transforming Lives

Mae defnyddio model adfyfyriol i strwythuro'r elfen hon o'r cais PL3b yn cael ei nodi'n gyson fel arfer gorau. Mae hyn yn sicrhau eich bod yn osgoi cyflwyno eich naratif yn ddisgrifiadol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys -

Cylch Dysgu Kolb (1984)



Model Adfyfyrion Gibbs (1988)



Dyma ychydig o arweiniad pellach ar fodel Gibbs. Mae'r cwestiynau o'r PDF wedi'u copïo isod er hwylustod:

<https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle>

- Gosodwch y cefndir ac eglurwch gyd-destun eich dysgu
 - Meddyliwch am ddigwyddiad penodol / digwyddiad tyngedfennol / sefyllfa lle roeddech yn teimlo eich bod wedi dysgu llawer o'r profiad.
 - Yma mae angen i chi ddarparu digon o wybodaeth er mwyn i'r darlennydd ddeall y cyd-destun.
 - Beth ddigwyddodd?
 - Pryd a ble ddigwyddodd hyn?
 - Pwy oedd yn bresennol?
 - Beth wnaethoch chi a'r bobl eraill?
 - Beth oedd canlyniad y sefyllfa?
 - Pam oeddech chi yno?
 - Beth oeddech chi eisiau i ddigwydd?

	• Sut oeddech chi'n teimlo am y profiad hwn? ○ A oeddech chi'n datblygu gwybodaeth bresennol? A oedd hyn yn rhywbeth newydd oedd yn golygu gwaith dysgu helaeth? ○ Beth oeddech chi'n ei deimlo yn ystod y sefyllfa? ○ Beth oeddech chi'n ei deimlo cyn ac ar ôl y sefyllfa? ○ Beth ydych chi'n meddwl oedd pobl eraill yn ei deimlo am y sefyllfa? ○ Beth ydych chi'n meddwl mae pobl eraill yn ei deimlo am y sefyllfa nawr? ○ Beth oeddech chi'n ei feddwl yn ystod y sefyllfa? ○ Beth ydych chi'n meddwl am y sefyllfa nawr? • A oedd hyn yn brofiad cadarnhaol neu negyddol? ○ Beth oedd yn dda ac yn ddrwg am y profiad? ○ Beth aeth yn dda? ○ Beth aeth ddim cystal? ○ Beth wnaethoch chi a phobl eraill ei gyfrannu at y sefyllfa (cadarnhaol neu negyddol)? • Beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r profiad hwn? ○ Beth ddysgais i o'r sefyllfa hon? ○ Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol pe baech yn yr un sefyllfa neu mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol? ○ Beth aeth yn dda a beth fyddech chi'n ei wneud yn yr un modd yn yr un sefyllfa neu mewn sefyllfa debyg eto? ○ Pam aeth pethau'n dda? ○ Pam na wnaeth pethau fynd yn dda? ○ Pa synnwyr gallaf ei wneud o'r sefyllfa? • Sut mae'r profiad hwn yn gysylltiedig â damcaniaethau neu fodelau academaidd perthnasol? ○ Pa wybodaeth – fy ngwybodaeth fy hun neu gan bobl eraill (er enghraifft llenyddiaeth academaidd) all fy helpu i ddeall y sefyllfa? • Sut ydych chi wedi datblygu eich arfer, ar ôl mynd trwy'r profiad hwn? ○ Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i ddelio â sefyllfa fel hon yn well? ○ Beth arall gallwn i fod wedi'i wneud? • Beth yw eich profiad chi o'ch arfer gweithio newydd?
--	--

Cam 4:

O fewn Adran 3.1 y cais, rhestrwch a chyfeirnodwch y dystiolaeth ategol yn eich portffolio. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys:

- CV manwl;
- disgrifiad swydd;
- portffolio o brofiadau dysgu sy'n dangos lefel y dysgu yn erbyn y deilliannau dysgu a'r modylau perthnasol o fewn y rhaglen astudio;
- Ffurflen PL3b wedi'i chwblhau yn amlinellu manylion y cais ac yn cynnwys datganiad cefnogi gan y Mentor Academaidd.

Canllaw

Disgwylir y byddwch yn cynnwys y canlynol

- CV
- Disgrifiad Swydd

Gall y dystiolaeth gynnwys amrywiaeth o eitemau fel: -

- Ardystiadau
- Geirdaon
- Dogfennaeth arfarnu
- Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi
- Adroddiad Busnes
- Strategaeth farchnata
- Adroddiadau blynyddol
- Rhagolygon/cynlluniau ariannol
- Astudiaethau achos
- Erthyglau/Cylchgronau
- Recordiadau
- Logiau hyfforddi
- Arsylwadau

Wrth gyfeirio at dystiolaeth yn adran 3 eich ffurflen PL3b, cofiwch ddefnyddio system godio fel y gall y darllenydd gysylltu'r naratif yn hawdd â'r dystiolaeth.

Enghraifft

'Gan adfyfrio ar fy Curriculum Vitae (Atodiad 1) a'r Disgrifiad Swydd anodedig (Atodiad 2) gallaf nodi'r datblygiad rwyf wedi'i wneud yn y maes hwn'.

Cam 5: Cynhwyswch dystiolaeth tyst gan gyflogwr neu rywun arall priodol sy'n cydnabod yn benodol y dysgu sy'n destun eich cais.	<u>Canllaw</u> Mae'n hanfodol eich bod yn cael dystiolaeth tyst i gefnogi eich cais PL3b. Mae angen i'r geirda gael ei gyflwyno ar bapur swyddogol neu dylid cynnwys copi gwreiddiol o'r e-bost. <u>Canllawiau ar gyfer datganiadau geirda:</u> • Cadarnhewch rôl y swydd ac amrywiaeth y cyfrifoldebau. • Rhowch sylwadau llawn ar ddatblygiad y dysgwr yn ystod y cyfnod. • Adfyfiriwch ar wybodaeth a roddwyd gan y dysgwr yn adran 3.1 y cais. • Cadarnhewch fod y dystiolaeth a nodwyd yn dod o'r gweithle. • Cynhwyswch y datganiad canlynol: ◦ Cadarnhaf fod y dysgwr hwn wedi cyrraedd lefel briodol o arfer proffesiynol. • Rhaid i ddatganiadau geirda gael eu llofnodi a'u dyddio. Os yw'r geirda'n cael ei anfon drwy e-bost, rhaid ei anfon yn uniongyrchol at y tiwtor PL3b.
<i>Rhestr Wirio</i>	Ydych chi • Wedi bod yn benodol wrth nodi'r dysgu drwy brofiadau rydych wedi'i gaffael? • Wedi cynnwys dystiolaeth i driongli eich cais? • Wedi cyfeirio at amrywiaeth o fodelau a damcaniaethau academiaidd ac wedi dilyn canllaw Cyfeirnod Harvard ? • Wedi cynnwys rhestr gyfeiriadau? Wedi rhestru eitemau yn nhrefn yr wyddor? • Wedi cynnwys datganiad o gefnogaeth/geirda gan eich cyflogwr? • Wedi cynnwys eich CV a'ch disgrifiad swydd.

Atodiadau

Atodiad 1 – Enghreifftiau o Ddeilliannau Dysgu

Enghreifftiau o Deitlau a Deilliannau Dysgu Meysydd Dysgu (Lefel 7)

Lefel 7 45 credyd	Comisiynydd Heddlu a Throseddu – Ethol a Phenodi
	Creu a gwerthuso proses bontio ar gyfer cyflwyno Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd.
	Ymchwilio, cynllunio a rheoli'r broses etholiadol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.
	Datblygu, gweithredu ac adolygu Strategaeth Arwain a Rheoli ar gyfer y broses bontio.
Lefel 7 60 credyd	Rheoli Strategaeth Dechnegol ar gyfer Derbyn ac Anfon
	Cynllunio a chydlynu gweithredu rhaglennydd anfon newydd ym maes TG ar draws 4 maes anfon ar ddau safle gwahanol.
	Rheoli, Gwerthuso a Dadansoddi Gweithrediadau'r System TG newydd i sicrhau eu bod yn "Addas i'r Pwrpas" ac yn Addas i Fusnes.
	Dylunio, Adolygu a Gweithredu pecyn hyfforddi sy'n addas ar gyfer gweithredwyr busnes er mwyn sicrhau defnyddio'r system TG yn llwyddiannus.
	Cydlynu proses adolygu parodrwydd y busnes ar gyfer y llif gwaith Derbyn ac Anfon ar y cyd â rhanddeiliaid busnes allweddol.
Lefel 7 40 credyd	Arwain Newid Strategol – Adolygiad o Ddarpariaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol
	Gwerthuso'n feirniadol rôl y Swydd Cymorth Cymunedol yn Heddlu XXX.
	Dylunio ac argymhell fframwaith ar gyfer newid rôl y Swyddog Cymorth Cymunedol yn Heddlu Gwent.
	Gweithredu'r newidiadau a'u gwerthuso'n feirniadol.
Lefel 7 45 credyd	Arweinyddiaeth
	Cynllunio, gweithredu ac adolygu strategaeth gyfathrebu i reoli rhanddeiliaid.
	Ymchwilio, datblygu a gweithredu gweithdrefn newydd.
	Dylunio, darparu ac adolygu pecyn hyfforddi/ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff ar draws ystod o sefydliadau.
Lefel 7 45 credyd	Datblygu perthynas fusnes gydweithredol rhwng y sectorau ieched a thai

	Cychwyn a sefydlu partneriaeth gydweithredol rhwng y sectorau iechyd a thai.
	Cynllunio, dylunio a datblygu cynllun strategol a gweithredol i ddarparu gwasanaethau ar y cyd.
	Rheoli a gwerthuso'r broses gan gynnwys rheoli gwrthdaro.
Lefel 7 60 credyd	Rheoli Prosiectau Strategol
	Ymchwilio, dyfeisio a gweithredu strategaeth datblygu cynulleidfa ar gyfer y sector addysg ffurfiol.
	Cynllunio, dylunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen o ddigwyddiadau ac adnoddau dysgu newydd ac arloesol ar gyfer dysgu a dehongli yn unol â gwerthoedd sefydliadol ac anghenion cynulleidfa.
	Ymchwilio a nodi rhanddeiliaid allweddol a chychwyn a datblygu partneriaethau gyda sefydliadau creadigol a diwylliannol eraill.
Lefel 7 60 credyd	Rheoli Prosiectau
	Ymchwilio a dylunio cwricwlwm wedi'i gyfoethogi'n ddigidol drwy oresgyn dilemâu a chwilio am ffyrdd ymlaen mewn sefyllfaoedd problematig.
	Dadansoddi'n feirniadol a gweithredu ystod o offer, technolegau a thechnegau i oruchwyllo rhwystrau rhag ymgysylltu
	Datblygu a gwerthuso'n feirniadol amrywiaeth o fodelau a damcaniaethau, i oresgyn heriau a datblygu cyfleoedd.
	Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd cyflwyno'r cwricwlwm Llythrennedd Digidol.
Lefel 7 45 credyd	Defnydd effeithiol o dechnegau rheoli rhaglenni i gyflwyno rhaglen trafndiaeth rhanbarthol strategol.
	Datblygu a gwerthuso'n feirniadol amrywiaeth o offer rheoli rhaglenni priodol i gyflwyno rhaglen drafndiaeth strategol.
	Gweithredu technegau rheoli rhaglenni i gyflwyno rhaglen drafndiaeth strategol yn llwyddiannus o fewn yr amser a'r gyllideb.
	Monitro a dadansoddi effeithiolrwydd technegau rheoli rhaglenni yng ngoleuni cyfyngiadau rhaglenni, fel rheolau cyllido, ac ailgynllunio er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus.
	Rheoli rhanddeiliaid allweddol, ymgysylltu â nhw a chydlynu mewnbwn ganddynt.
Lefel 7 60 credyd	Datblygu a gweithredu rhaglen i oruchwyllo lechyd Galwedigaethol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch Galwedigaethol Cenedlaethol

	Dadansoddi polisiâu iechyd galwedigaethol cenedlaethol yn feirniadol, a nodi a chymhwyso gweithdrefnau ar draws yr adran.
	Monitro ac ymchwilio i ddiffyg cydymffurfiaeth staff â gweithdrefnau a chanllawiau lechyd Galwedigaethol y cwmni.
	Adolygu rolau swyddi ac arferion gweithio yn unol â chanlyniadau goruchwyliaeth lechyd Galwedigaethol a gweithredu newidiadau priodol.
	Negodi, cynllunio a gweithredu rhaglen hyfforddi busnesau ar gyfer lechyd Galwedigaethol sy'n blaenoriaethu rhwng ffactorau risg.
	Cynllunio a gweithredu Archwiliad lechyd Galwedigaethol cwmni i nodi safle'r cwmni o ran goruchwyliaeth iechyd, gan gynnwys dadansoddi bylchau a lledaenu canlyniadau.
	Dylunio, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso amrywiaeth o sesiynau addysgu pwrpasol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, sydd ar lefel briodol ac yn mynd i'r afael ag anghenion busnes penodol.
Lefel 7 60 credyd	Cynyddu effeithiolrwydd Sefydliadol trwy arweinyddiaeth sefyllfaol
	Rheoli, monitro ac adolygu effeithiolrwydd staff trwy weithredu amrywiaeth o systemau rheoli
	Gwerthuso amrywiaeth o sgiliau arwain er mwyn cael effaith a dylanwadu ar gydweithwyr
	Gweithredu, adolygu a rheoli prosesau cyfnewid gwybodaeth a chyfathrebu a mesur effeithiolrwydd.
	Nodi a defnyddio arddulliau arweinyddiaeth sefyllfaol priodol wrth gyfathrebu a negodi materion cymhleth gydag uwch reolwyr.
Lefel 7 60 credyd	Dylanwadu ar ddatblygiad ac effeithiolrwydd timau gwaith a gweithwyr drwy ddatblygiad personol ac arfer, a chymhwyso hynny mewn addysgu, asesu, hyfforddi a mentora
	Dadansoddi, gwerthuso a gweithredu rôl allweddol a chyfrifoldebau tiwtor mewn amgylchedd addysgu i hyrwyddo profiad dysgu effeithiol.
	Cynllunio, nodi a gweithredu strategaethau asesu priodol er mwyn gwella dysgu a datblygu.

	Nodi a chymhwyso amrywiaeth o dechnegau hyfforddi a mentora priodol sy'n galluogi cydweithwyr i wella eu lefel perfformiad.
Lefel 7 60 credyd	Arweinyddiaeth Strategol
	Cyfathrebu Strategol: Cyfathrebu'n effeithiol fel arweinydd strategol o fewn meysydd difrifol a chymhleth yn ymwneud ag ymchwilio i droseddau a diogelu.
	Gwneud Penderfyniadau Strategol: Dadansoddi, cymhwyso a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o sgiliau gwneud penderfyniadau strategol ar draws amrywiaeth o sefyllfaoedd seiliedig ar waith.
	Arwain Newid ar Lefel Strategol: Dadansoddi, cymhwyso a gwerthuso'n feirniadol arddulliau arwain a damcaniaethau rheoli newid i arwain newid ar lefel strategol.
Lefel 7 60 credyd	Arweinyddiaeth Strategol
	Cynllunio a chydlynw'r gwaith o ddatblygu achosion busnes a gweithredu elfen Gwasanaeth XXX Rhwydwaith Trawma Mawr Cymru Gyfan.
	Datblygu a gweithredu modylau hyfforddi (e-ddysgu/wyneb yn wyneb) ac amrywiaeth o ganllawiau/offer i gefnogi gwneud penderfyniadau ar gyfer cleifion trawma mawr a gweithredu rhaglen lywodraethu i fonitro a llywio newidiadau i arfer clinigol, rheoli risgiau a phennu a sicrhau safonau ansawdd.
	Dadansoddi'n feirniadol ac adolygu deddfwriaeth, polisïau, gweithdrefnau, codau ymarfer a chanllawiau perthnasol, cyfredol yn ymwneud ag ymateb i argyfwng.
	Datblygu a gweithredu strategaeth mewn ymateb i sefyllfaoedd neu wybodaeth newidiol drwy bartneriaeth strategol.
Lefel 7 45 credyd	Gweithredu Strategaeth Casglu Data
	Dadansoddi'n feirniadol y broses casglu data a ddefnyddir ar hyn o bryd
	Datblygu system casglu data a gwybodaeth i fodloni anghenion y sefydliad
	Cyfathrebu a gweithredu'r broses ar draws y sefydliad
	Gwerthuso'r broses a gwneud argymhellion pellach ar gyfer newid
Lefel 7 60 credyd	Rheoli newid drwy adnewyddu gwasanaeth contract sy'n hanfodol i gynhyrchu
	Ymchwilio, dadansoddi'n feirniadol a gweithredu proses rheoli newid briodol ar gyfer rheoli'r trosglwyddo i ddarparwyr contractau newydd

	Sefydlu a rheoli sianelau cyfathrebu effeithiol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd yr holl feysydd gweithredol.
	Gwerthuso effeithiolrwydd y contractau newydd sy'n hanfodol i gynhyrchu, a datblygu arddull reoli briodol
	Sefydlu proses fonitro effeithiol a mabwysiadu arddull reoli briodol.
Lefel 7 60 credyd	Datblygu, gweithredu a chynnal prosiect gwella prosesau cyfrif stoc o fewn sefydliad Gweithgynhyrchu
	Gweithredu, rheoli ac arwain tîm prosiect sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion busnes ac arbedion costau
	Ymchwilio a dadansoddi'n feirniadol amrywiaeth o brosesau gweithredu prosiectau, a ddefnyddir yn fewnol ar draws y busnes ac yn ehangach mewn cyd-destun allanol.
	Nodi a defnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau i werthuso'n feirniadol ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), mesurau effeithiolrwydd a buddion busnes amlwg
	Adolygu a gwerthuso strategaethau ymgysylltu, cyfathrebu a gweithredu a chynnig argymhellion
Lefel 7 60 credyd	Egwyddorion strategol system rheoli ansawdd
	Ymchwilio i ofynion system rheoli ansawdd a'i pherthnasedd i bob lefel o fewn y sefydliad
	Dadansoddi, gwerthuso ac adolygu newid strategol
	Dadansoddi'n feirniadol sut mae strategaeth fusnes yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol system rheoli ansawdd
	Gwerthuso'n feirniadol sut mae diwylliant sefydliadol yn effeithio ar lwyddiant neu fethiant system rheoli ansawdd
Lefel 7 60 credyd	Dadansoddi'n feirniadol a gwerthuso proses newydd ar gyfer adnewyddu gwasanaeth contract sy'n hanfodol i gynhyrchu
	Gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd contractau gwasanaethau cynhyrchu cyfredol trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid
	Dadansoddi gwasanaethau i sicrhau'r synergeddau mwyaf posibl ar draws contractau gwasanaethau cynhyrchu drwy gyfathrebu effeithiol.
	Mireinio ac adolygu proses i ganiatáu mwy o arloesi drwy weithio ar y cyd

	Datblygu a chymhwyso sgiliau dylanwadu a negodi er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl
Lefel 7 45 credyd	Arweinyddiaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
	Cychwyn a sefydlu partneriaeth gydweithredol rhwng y sectorau iechyd a thai.
	Cynllunio, dylunio a datblygu cynllun strategol a gweithredol i ddarparu gwasanaethau ar y cyd.
	Rheoli a gwerthuso'r broses gan gynnwys rheoli gwrthdaro.
Lefel 7 45 credyd	Ymgynghori ar weithdrefn newydd i ymdrin â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a'i gweithredu.
	Cynllunio, gweithredu ac adolygu strategaeth gyfathrebu i reoli rhanddeiliaid.
	Ymchwilio, datblygu a gweithredu gweithdrefn newydd.
	Dylunio, darparu ac adolygu pecyn hyfforddi/ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff ar draws ystod o sefydliadau.
Lefel 7 60 credyd	Datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad yn Strategol
	Ymchwilio, syntheseiddio a chyfathrebu data perfformiad a data rheolaeth ariannol a'u polisïau a'u gweithdrefnau cysylltiedig i gynorthwyo rheolwyr gwasanaethau i reoli adnoddau'n effeithiol.
	Gwerthuso a dadansoddi'n feirniadol y trefniadau rheoli perfformiad cyfredol o fewn y sefydliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau.
	Cynllunio, dylunio a rheoli gweithredu fframwaith rheoli perfformiad effeithiol o fewn yr adran.
	Adolygu a gwerthuso'r fframwaith rheoli perfformiad newydd ar draws y sefydliad.
Lefel 7 60 credyd	Newid cwricwlwm yn strategol
	Ymchwilio a dadansoddi'n feirniadol ofynion y cwricwlwm cyfredol a'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.
	Cynllunio, dylunio a gweithredu rhaglen astudio briodol ar gyfer cwricwlwm newydd y Dyniaethau.
	Datblygu a chyflwyno amrywiaeth o adnoddau Datblygu Proffesiynol ar gyfer staff addysgu anarbenigol sy'n galluogi cyflwyno cwricwlwm newydd y Dyniaethau yn llwyddiannus.
	Gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd newid y cwricwlwm yn unol â pholisïau'r ysgol a pholisïau cenedlaethol.
Lefel 7 60 credyd	Rheoli proses bontio disgyblion o addysg gynradd i uwchradd yn effeithiol
	Ymchwilio a gwerthuso'r broses bontio gyfredol.

	Sefydlu ethos rheoli prosiectau i gynllunio a chydlyn cyfleoedd pontio effeithiol i ddisgyblion a rhieni.
	Rheoli a chyfathrebu'n effeithiol â nifer o randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses bontio.
Lefel 7 60 credyd	Arweinyddiaeth strategol rhaglenni addysgol cydweithredol
	Cynllunio, datblygu a dylunio Rhaglen Cynefino Clinigol Cymru Gyfan.
	Archwilio a gwella fy sgiliau cyfathrebu drwy gydweithio â rhanddeiliaid o fewn y sefydliad ac yn allanol.
	Adolygu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau rheoli yn effeithiol i reoli tîm yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno rhaglen Cynefino Clinigol Cymru Gyfan.
Lefel 4 50 credyd	Gweithredu Newid / Rheoli Newid
	Hwyluso a rheoli cyfarfodydd gweithredol dyddiol yn effeithlon a chynhyrchiol
	Arwain fy nhîm trwy'r broses o drawsnewid.
	Rheoli a thawelu sefyllfaoedd o wrthdaro yn effeithiol.
	Cynllunio a gweithredu rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer staff newydd.
Lefel 5 60 credyd	Datblygu arddull addysgu sy'n mynd i'r afael ag anghenion dysgu unigol.
	Dylunio proses asesu sy'n ennyn diddordeb disgyblion er mwyn cael adnabyddiaeth gywir o anghenion dysgwyr.
	Ymchwilio a dadansoddi damcaniaethau priodol i ddatblygu adnoddau pwrpasol.
	Nodi a defnyddio arddulliau addysgu gwahanol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu bodloni.
	Negodi a chytuno ar dargedau gyda disgyblion sy'n bodloni'r meincnod llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.
Lefel 5 60 credyd	Codi safonau llythrennedd.
	Dylunio a negodi rhaglen llythrennedd amgen ar gyfer plant ag anawsterau dysgu.

	Datblygu a gweithredu adnoddau dosbarth sy'n adnabod lefelau gallu ac yn rhoi her briodol i ddysgwyr.
	Adolygu a gwerthuso darpariaeth bwrpasol i sicrhau llwyddiant a chynnydd myfyrwyr.

Atodiad 2 – Enghraifft o ffurflen PL3b – adran 3

3. MANYLION Y DYSGU DRWY BROFIADAU Y GWNEIR CAIS AM GREDYD AMDANO			
Cyfanswm a lefel y credydau dysgu drwy brofiadau y gwneir cais amdanynt (e.e. 120 o gredydau ar Lefel 4 a 60 ar Lefel 5):		Cwblhawyd y Modwl RAL yn llwyddiannus (ticiwch):	
Cyfanswm y ffi sydd i'w thalu (£5 am bob credyd a hawlir):		Cadarnhau bod y taliad wedi'i wneud (ticiwch):	
<i>I'W GWBLHAU GAN YR YMGEISYDD</i> (mae'r blwch testun hwn yn ehangu) Hoffwn wneud cais am gredydau academiaidd ar Lefel 7 am ddysgu sydd wedi digwydd trwy ymgymryd â'r modwl Arfer Proffesiynol – Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL) Rwyf wedi dangos fy nysgu yn y meysydd allweddol canlynol - Maes Dysgu 1: Datblygu, gweithredu a chynnal prosiect gwella prosesau cyfrif stoc o fewn sefydliad Gweithgynhyrchu (60 credyd) 1) Gweithredu, rheoli ac arwain tîm prosiect sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion busnes ac arbedion costau 2) Ymchwilio a dadansoddi'n feirniadol amrywiaeth o brosesau gweithredu prosiectau, a ddefnyddir yn fewnol ar draws y busnes ac yn ehangach mewn cyd-destun allanol. 3) Nodi a defnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau i werthuso'n feirniadol ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), mesurau effeithiolrwydd a buddion busnes amlwg 4) Adolygu a gwerthuso strategaethau ymgysylltu, cyfathrebu a gweithredu a chynnig argymhellion			

Gan weithio ar lefel strategol, arweiniais dîm prosiect dros gyfnod o 6 mis, a hynny i ddechrau yn ychwanegol at fy rôl a'm cyfrifoldebau beunyddiol. Wrth i'r prosiect dyfu a dod yn fwyfwy poblogaidd bu'n rhaid i mi gael secondiad amser llawn. Roedd hyn oherwydd bod lefel y brys a'r flaenoriaeth yn cynyddu gan fod y sefydliad dan gyfyngiadau ariannol. Mae fy nysgu'n canolbwyntio ar weithredu proses newydd o gyfrif stoc, nodi arbedion sylweddol o ran costau a chreu ffyrdd ystwyth o weithio a gafodd effaith uniongyrchol ar 124 o weithwyr, a nifer o adrannau traws-swyddogaethol o fewn y busnes.

Y dysgu y gwnes i ei gaffael - Crynodeb

Mae gweithdrefnau cymryd stoc wedi'u gwreiddio fel gweithgareddau busnes arferol sydd 'heb eu cyffwrdd' am gryn amser. A'r dasg yn cael ei hystyried yn waith cyfrif a gweinyddu syml heb angen fawr o ddealltwriaeth, dysgais am y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn, y gost sy'n gysylltiedig â'i chael yn anghywir a'r arbedion ariannol enfawr sydd i'w hennill. Es i ymlaen i ddatblygu cymhwyster yn benodol ar gyfer cyfrif stoc a chefais fy hyfforddi a'm hasesu yn yr un modd â'r 124 o weithwyr y felin ddur. Trwy wneud hynny datblygais ddull gwahanol o ymdrin â'r dasg gan ganolbwyntio ar weithrediadau ffisegol a newid mewn meddylfryd ac ymddygiad.

1) Gweithredu, rheoli ac arwain tîm prosiect sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion busnes ac arbedion costau

Trwy ddefnyddio cerdyn sgorio busnes, ac adolygiadau PDCA (cynllunio, gwneud, gwirio, gweithredu), dysgais gyfres o dechnegau adnabod problemau i ffurfio darlun i ddynodi ble'r oedd y broses 'allan o reolaeth' ac archwilio'n feirniadol ffyrdd cyfredol o weithio, er mwyn nodi bylchau, diffyg gwybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth ac, yn achos y rhai oedd yn rhan o'r broses, nodi pwysigrwydd yr effaith uniongyrchol y gallant ei chael ar lefel unigol.

Dysgais sut i arwain tîm mawr mewn maes o'r busnes nad oeddwn mor gyfarwydd ag ef a oedd yn codi heriau o ran adeiladu tîm, gwaith tîm, meithrin ymddiriedaeth, tryloywder ac ymgysylltu. Defnyddiais fodel Tuckman nid yn unig fel sail ar gyfer ffurfio fy nhîm prosiect ond hefyd wrth ddatblygu gwaith tîm gyda phawb oedd yn rhan o'r broses gyfan. Adfyfyriais ar hyfforddwyr, mentoriaid, arddulliau llwyddiannus ac aflwyddiannus o arwain prosiectau, yr oeddwn wedi'u gweld yn fewnol yn y busnes ac yn ehangach gydag ymgynghorwyr allanol, ac adfyfyriais ar yr hyn oedd wedi gwneud gwahaniaeth. Defnyddiais yr enghreifftiau hynny i fodelu fy arddull prosiect fy hun, datblygu sut oeddwn i eisïau rheoli, sut y byddwn yn rhyngweithio, nodi deilliannau allweddol, amcanion tîm a ffyrdd o fesur llwyddiant a chyflawniad prosiectau. Dysgais sut i ddatblygu metrigau dangosyddion perfformiad allweddol gan fagu hyder wrth gyflwyno cynnydd y tîm i uwch randdeiliaid. Pwynt pwysig i'w nodi yw fy mod wedi gofyn i dîm y prosiect a'r grŵp ehangach bennu amcanion personol ar fy nghyfer fel mesur o'm perfformiad, fy arddull arwain, fy nysgu allweddol, a'r hyn rwyf wedi'i ddysgu o ddigwyddiadau, ar ffurf adborth 360 gradd.

Gan ddefnyddio arddulliau dewisiadau dysgu (VARK, Fleming), datblygais weithdai ymgysylltu a chynefino lle roedd Gweithwyr Melinau (perchnogion prosesau) yn gallu mapio prosesau cyfredol 'fel ag y maent' yn ffisegol ac ailadeiladu 'darpar' ffyrdd o weithio. Gwnaeth hyn nid yn unig eu helpu i adfyfyrio, herio a siarad am eu 'dysgu trwy wneud' ond gwnaeth orfodi'r broses o 'ddad-ddysgu' a herio eu credoau ynghylch pam rydym ni'n gwneud yn yr hyn a wnawn – a gwneud perchnogion personol yn ymwybodol y gallent yrru'r newid. Dysgais sut i reoli gwrthdaro, annog beirniadaeth adeiladol a chaniatáu i ryw faint o anfodlonrwydd cynhenid am ein ffyrdd o weithio gael ei fynegi a'i roi gerbron ar gyfer

trafodaeth iach. Dysgais sut i gydbwysu anghenion busnes ar lefel strategol o ran gwella elw'r busnes ond hefyd o ran gwneud y bobl y mae hynny'n effeithio arnynt yn gyfrifol am y newid hwnnw.

Dysgais am y broses ei hun, y diwylliant, y meddylfryd, a sut roedd angen i mi fod yn anfeirniadol ac yn wrthrychol, sut i adnabod unigolion oedd eisiau gwneud gwahaniaeth a chroesawu cynnydd. Roeddwn yn cydnabod nad oedd y dull hwn o ryngweithio wedi'i wneud o'r blaen. Yn draddodiadol roedd newidiadau i brosesau wedi'u gyrru o'r brig i lawr gydag ychydig iawn o ymgynghori neu allu cyfyngedig i'r timau yr effeithir arnynt i gymryd atebolrwydd, perchnogaeth a buddsoddiad personol i'w gael yn iawn.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud â Datblygu Tîm (Tuckman), Arwain Newid (Kotter), Modelau Cynefino (Bauer ac Erdogan), agweddau Ymddygiadol a Chymhelliant, rolau tîm, Balchder yn y Sefydliad (Gouthier a Rhein) a Hierarchaeth Anghenion (Maslow). Hefyd Dysgu trwy Wneud (Dewey), Dysgu drwy brofiadau (Kolb), Rheoli prosiectau (Koskela a Howell), egwyddorion Six Sigma (Smith), Cymhelliant yn y gwaith (Hertzberg), Dadansoddi Trafodol (Berne), O Barth Cysurus i Reoli Perfformiad (White).,

Tystiolaeth i gefnogi

Disgrifiad swydd anodedig

PDCA

CV

Proffil Sgiliau

Tystiolaeth tyst – Rheolwr Cynhyrchu

Gwariant yn erbyn arbedion disgwylidig - cymhariaeth

Holiaduron Tîm

Cynlluniau'r prosiect

Pecyn cyflwyno gweithdai

Tystiolaeth i gefnogi

Menywod mewn Diwydiant – Y maes Modurol a rheoli'r gadwyn Gyflenwi

Tystysgrif Six Sigma – Gwregys werdd

Tystiolaeth tyst – Rheolwr Prosiect

Tystiolaeth tyst – Mentor Six Sigma

Dull y 5 cwestiwn PAM

Y gwahaniaeth a wnaeth i mi:

Roedd gweithio ar y lefel hon yn anodd ac ar adegau fe wnaeth i mi gwestiynu fy ngalluoedd, fy nysgu a'm harddull arwain fy hun. Rwyf wedi magu hyder, gan sylweddoli nad yw pawb yn gweithio ar yr un cyflymder neu â'r un ysgogiad, a phan fo prosiect wedi'i gyfyngu gan amser mae'n hawdd i reoli'r tîm fel un, yn hytrach nag yn ôl anghenion unigol. O safbwynt rheoli prosiect a dynameg tîm, byddwn yn ceisio ymdrin â hynny'n wahanol y tro nesaf oherwydd wrth adfyfrio rwy'n cydnabod fy mod wedi tueddu mynd gyda'r mwyafrif pan oedd yn fater o wneud penderfyniad, gan ogwyddo tuag at y rhai yn y tîm a oedd yn adlewyrchu fy lefel o ymdrech ac ymrwymiad i dasg.

2) Ymchwilio a dadansoddi'n feirniadol amrywiaeth o brosesau gweithredu prosiectau, a ddefnyddir yn fewnol ar draws y busnes ac yn ehangach mewn cyd-destun allanol.

Dysgais sgil olrhain prosiectau newydd a elwir yn DMAIC (diffinio, mesur, dadansoddi, gwella a rheoli). Nid oeddwn wedi defnyddio'r model neu'r theori hwn mewn cyd-destun bywyd go iawn o'r blaen a sylweddolais mai dyna oedd y rheswm pam y byddwn yn ymdrin â'r prosiect arbennig hwn yn wahanol. Fe wnes i hefyd adfyfrio ar y gefnogaeth oedd ar gael gan fy mentor Six Sigma, a oedd yn gwrandao ac yn ymateb gyda chynghor ac yn caniatáu i'm hyder a'm hunan-gred i dyfu. Adfyfriaais ar fy math o bersonoliaeth, a sut mae fy mrwdfrydedd yn uchel yn ystod y camau cynnar ac yna'n pylu, a sut yr oedd yn rhaid i mi barhau i gadw ffocws ar gyfer y darn hwn o waith. Roedd hwn yn gyfnod o hunanadfyfrio i mi o ran eisiau cael mecaneg y prosiect yn iawn ond hefyd o ran sicrhau fy mod yn modelu'r ymddygiadau cywir i'm tîm. Dysgais am y ffordd rwy'n gweithio, beth sy'n fy ysgogi a sut roedd angen i mi reoli graddfa a maint y prosiect, er mwyn osgoi defnyddio fy mrwdfrydedd cynnar i ymgymryd â gormod, creu anghenfil a pheidio â bodloni cyfyngiadau cyflawni a chyllidebol. Dysgais i nodi beth oedd o fewn a thu hwnt i'm gallu, rhywbeth nad oeddwn wedi gallu ei wneud yn flaenorol, drwy barhau'n realistig, gosod paramedrau oedd yn glynu at linellau amser a defnyddio system bwyntiau i ddynodi tasgau allweddol – er mwyn gyrru'r broses o wneud penderfyniadau a phennu lefelau blaenoriaethu.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud â Mathau o Bersonoliaeth (Myers Briggs)

Tystiolaeth i gefnogi

Gweithgaredd system bwyntiau – blaenoriaethu llwyth gwaith

Dull DMAIC Six Sigma

Y gwahaniaeth a wnaeth i mi:

Roeddwn yn gallu cymhwyso dysgu drwy brofiadau a defnyddio technegau o werslyfrau mewn cyd-destun. Gwnaeth hyn fy helpu i amgyffred a mynegi pethau roeddwn wedi'u dysgu, a gallwn drosglwyddo gwybodaeth i'm tîm o fewn fframwaith cydnabyddedig a fyddai'n parhau wedi i'r prosiect gael ei drosglwyddo i rywun arall. Byddai'r sgiliau y gwnes i eu caffael hefyd yn fy helpu gyda phrosiectau yn y dyfodol.

3) Nodi a defnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau i werthuso'n feirniadol ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), mesurau effeithiolrwydd a buddion busnes amlwg

Fe wnes i ddatblygu datganiad problem, achos busnes ac ehangu fy ngwybodaeth trwy gynnal sawl gweithgaredd meincnodi, rhywbeth nad oeddwn wedi'i wneud o'r blaen. Cyfeiriais at arbenigwyr o fewn y busnes a'r egwyddorion o fewn Six Sigma. Defnyddiais broses y cyfeiriwyd ati fel *Gemba walk* (Ile go iawn) a dadansoddiad SWOT i'm helpu i'm harwain fy hun a'r tîm. Adfyfriaais ar Gwsmeriaid Modurol a safleoedd cynhyrchu ceir rwyf wedi gweithio gyda nhw trwy gydol fy ngyrfa, ac yn enwedig egwyddorion gweithgynhyrchu darbodus ac egwyddorion gwelliant parhaus. Roeddwn wedi dysgu egwyddorion sylfaenol gweithgaredd o'r enw 'Kaizen', gair Japaneaidd sy'n golygu graddol / trefnus. Roedd y

prosiect hwn yn addas ar gyfer y dull hwn o weithio drwy brofiadau, a defnyddiais yr offeryn busnes wnaeth ddynodi sawl arfer gorau y gellir eu hymgorffori.

Es yn fy mlaen i ehangu fy ngwybodaeth ynglŷn â chost ansawdd gwael a dysgais sut i goladu data meintiol i gefnogi gofynion gweithredol a chynhyrchu dadansoddiad o anghenion hyfforddi. Roeddwn yn ymwybodol mai pobl fyddai'r gofyniad allweddol er mwyn i'r prosiect hwn fod yn llwyddiannus a chefais drafferth i bennu'r dull gorau o adlewyrchu'r newidiadau a welwn o ran meddylfryd ac ymddygiad.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud â:

Dadansoddiad SWOT, fframwaith Kaizen (Cost ansawdd gwael - sefydliad Deming), Datblygiad Tîm (Tuckman)

Tystiolaeth i gefnogi

Gemba walk

Kaizen

Cost Ansawdd Gwael

Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi

Tystiolaeth tyst - Hyfforddwr

Y gwahaniaeth a wnaeth i mi:

Dysgais sut i strwythuro fy llwyth gwaith, tynnu ar brofiadau a chymhwyso fframweithiau academiaidd i brofi'r damcaniaethau hynny. Dysgais fy mod yn gweithio orau wrth ymgysylltu ag eraill ac mai'r allwedd i lwyddiant oedd y cam cynnar hwnnw o ymwneud â'r tîm. Dysgais fod pobl yn awyddus i rannu, o gael yr amgylchedd iawn i wneud hynny, a bod angen meddwl agored.

4) Adolygu a gwerthuso strategaethau ymgysylltu, cyfathrebu a gweithredu a chynnig argymhellion

Dysgais sut i weithredu cylch adolygu PDCA i sicrhau bod pawb yn cyd-fynd, a rhannais y prosiect yn gamau proses hwylus, gan brosesu bygythiadau a diogelu prosesau i ganiatáu gwireddu'r weithdrefn, ei sefydlogi ar gyfer y dyfodol, a sicrhau ei bod yn ddealladwy ac yn weledol. Canolbwyntiais o'r newydd ar fy null i o ddysgu a sut mae unigolion yn dysgu, a'r ffordd maen nhw'n ei ffafrio o ran cael gwybodaeth wedi'i throsglwyddo iddynt. Dysgais sut i ddatblygu fframwaith cymwyseddau, oedd nid yn unig yn arddangos y prosesau newydd roedd y timau a minnau wedi'u creu ond hefyd yn caniatáu cymhwyster diriaethol.

Adfyfyrtais ar fy nghymhwyster TAQA (Hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd) a sut y gallwn ddefnyddio'r dysgu hwnnw i ddatblygu darlun o'r hyn sy'n gymwys, sut mae bylchau'n cael eu dynodi a'u cau. Adfyfyrtais ar brofiad blaenorol yn gweithio ar y rhaglen sgiliau Hanfodol ar ran y busnes ac roeddwn yn ymwybodol bod angen i asesiadau adlewyrchu gofynion

rhifedd, llythrennedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ogystal edrychais eto ar wobrwyo a chydabyddiaeth, sut yr wyf i'n hoffi teimlo fy mod yn cael fy ngwobrwyo a'r hyn sy'n fy ysbrydoli, a nodais aelodau o'r tîm a oedd wedi cyfrannu a dod yn 'arbenigwyr pwnc' yn y broses.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau Tuckman, a damcaniaethau'n ymwneud â'r pedwar cam dysgu (Maslow), Peryglon hunanfodlonrwydd (Marcus, Forbes), Dysgu trwy wneud (Dewey)

Tystiolaeth i gefnogi

Asesiad Cymhwysedd

Sgiliau Hanfodol Cymru (pecyn cymorth)

Gweithdrefn newydd ar gyfer cyfrif stoc

System Dadansoddi a Dosbarthu Ffactorau Dynol (HCFAS)

Y gwahaniaeth a wnaeth

Canlyniadau cyfrif stoc

Y gwahaniaeth a wnaeth i mi:

Dysgais am bwysigrwydd dathlu llwyddiannau'r prosiect, gan eu harddangos yn weledol i bawb dan sylw allu gweld y cynnydd roeddent yn ei wneud, a'r cydbwysedd rhwng gwybodaeth negyddol a chadarnhaol. Dysgais i ddefnyddio adroddiad Statws RAG (Coch, Melyn, Gwyrdd) trwy fy hyfforddiant Six Sigma i wirio ble roeddem yn gwneud cynnydd neu'n syrthio ar ei hôl hi a dyrannu fy adnoddau yn unol â hynny.

Maes Dysgu 2: Mae fy maes dysgu'n canolbwyntio ar fy nhaith bersonol i ddeall sut mae egwyddorion strategol system rheoli ansawdd yn gweithio'n ymarferol (60 credyd)

- 1) Ymchwilio i ofynion system rheoli ansawdd a'i pherthnasedd i bob lefel o fewn y sefydliad
- 2) Dadansoddi, gwerthuso ac adolygu newid strategol
- 3) Dadansoddi'n feirniadol sut mae strategaeth fusnes yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol system rheoli ansawdd
- 4) Gwerthuso'n feirniadol sut mae diwylliant sefydliadol yn effeithio ar lwyddiant neu fethiant system rheoli ansawdd

Y dysgu y gwnes i ei gaffael - Crynodeb

Mae fy ail faes dysgu'n canolbwyntio ar sut y gwnes i ymgorffori fframwaith rheoli Ansawdd. Trwy ddysgu drwy brofiadau roeddwn yn gallu deall nid yn unig gydymffurfiaeth, mecaneg a dulliau gweithredu'r system ond hefyd ei pherthnasedd a'i haliniad â strategaeth a phrosesau busnes. Ac yn ei dro, sut yr oedd yn cael ei throsi, ei rhaeadru a'i gwneud yn ddealladwy ar lawr y siop.

1) Ymchwilio i ofynion system rheoli ansawdd a'i pherthnasedd i bob lefel o fewn y sefydliad

Dysgais am y paramedrau a chanllawiau llym sydd eu hagen er mwyn i'r busnes weithio a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau yn unol ag achrediad ISO. Adfyfyriais ar fy newisiadau dysgu ar ôl ymgymryd â modwl e-Ddysgu yn ymwneud â'r pwnc, nad oedd yn addas i'r ffordd rwyf i'n dysgu, gan ffafrio yn hytrach gysgodi arbenigwyr busnes yn y maes. Cefais fy hyfforddi am lawer o wythnosau. Dysgais am ddulliau rhagweithiol o werthuso sut a ble y gallai proses fethu, effaith berthnasol cyfyngu amodau gweithredu annormal, a diogelu ein cwsmeriaid rhag y methiannau hynny. Roedd disgwyl i mi arddangos fy nealltwriaeth o'r pwnc yn barhaus ac roedd angen i mi gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau bod fy nysgu yn datblygu. Gosodwyd tasgau penodol i mi a fyddai'n casglu gwybodaeth ynghyd i ddangos fy mod nid yn unig wedi dysgu ond wedi deall y rheoliadau yn gysylltiedig â'r broses.

Adfyfyriais ar fy amser yn gweithio ym myd Diwydiant a'r canllawiau llym i gyflenwi'r diwydiant Modurol, a chymerais ran mewn archwiliadau mewnol ac allanol i ennill ymwybyddiaeth o'r protocolau safonol.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud â: Thacsonomeg (Bloom), Dysgu drwy brofiadau (Schon), Modelau adfyfyriol (Kolb), Arddulliau dysgu (Honey a Mumford), Rheoli timau (Belbin), Modelau ymchwil (Walliman), Dysgu hunangyfeiriedig (Knowles), Model adfyfyriol (Rolfé et al), Grisiau perthynas (Knapp)

Tystiolaeth i gefnogi

Strwythur Rheoli Teiran

Arddull ddysgu

Beth, pam, sut, pryd

Tystiolaeth tyst – Uwch Arweinydd Busnes System Rheoli Ansawdd (QMS)

Modd methiant a dadansoddi effeithiau (FMEA)

Adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfiaeth (NCR)

Paratoi at Archwiliad

Y gwahaniaeth mae wedi'i wneud i mi:

Nodais sut rwy'n hoffi dysgu ac roeddwn yn gallu awgrymu fy null hunanreoledig fy hun gan ddefnyddio adnodd arbenigwr busnes.

1) Dadansoddi, gwerthuso ac adolygu newid strategol

Er mwyn ymchwilio i ofynion ein cwsmeriaid yn fanwl, cysgodais gydweithwyr Profiad Cwsmeriaid a chael fy hyfforddi ganddynt. Adfyfyriais ar fy CV, yn benodol fy amser mewn rôl e-fasnach lle lluniais strategaeth i ddelio â chwynion. Dysgais am y diffyg cysylltiad rhwng yr hyn mae ein timau sy'n ymwneud â chwsmeriaid yn delio ag ef a'r diffyg adborth i'r adran Weithgynhyrchu. Adfyfyriais ar feddylfryd gweithio ar wahân a'r effaith mae hynny'n ei gael ar lwyddiant ein sefydliad.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud â: Chyfeiriadur busnes Forbes.

Tystiolaeth i gefnogi

Holiaduron boddhad cwsmeriaid

Y gwahaniaeth mae wedi'i wneud i mi:

A minnau wedi gweithio mewn nifer o adrannau drwy gydol fy ngyrfa, roeddwn yn gallu casglu y gall gwella cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a deall rolau a chyfrifoldebau gynyddu boddhad Cwsmeriaid a Chyflogwyr.

2) Dadansoddi'n feirniadol sut mae strategaeth fusnes yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol system rheoli ansawdd

Dysgais sut mae safonau a chydymffurfiaeth ISO yn alinio â strategaeth fusnes gyffredinol, ac nad yw'n glir mewn termau lefel uchel i weithwyr ar lefel weithredol. Gan ddefnyddio technegau mapio yr oeddwn wedi'u dysgu trwy brosiectau yr oeddwn wedi'u rheoli, a thrwy ymhelaethu ar y ffordd yr oeddwn wedi cael fy hyfforddi gan Arweinydd Busnes y System Rheoli Ansawdd (QMS), rhannais y strategaeth yn adrannau a dyfeisio system ar gyfer alinio Safon ISO ag olwyn Strategaeth TATA. Yna edrychais ar y modd y mae'r busnes yn arddangos y safonau hyn a sut mae'r hyn rwyf yn ei wneud yn effeithio ar y strategaeth gyffredinol honno. Adfyfyriais ar ymgysylltu, a dysgu am seice gweithwyr, a'r effaith mae hynny'n ei chael ar yr holl brosesau yr oeddwn wedi'u dadelfennu. Dysgais am y rhyngddibyniaethau rhwng canlyniadau Boddhad Cwsmeriaid a Boddhad Gweithwyr a defnyddio hyn wrth weithredu'r system rheoli ansawdd (QMS).

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud ag: Ymgysylltu (Khan)

Tystiolaeth

Olwyn strategaeth

Y gwahaniaeth mae wedi'i wneud i mi:

Y gallu i dorri gwybodaeth i lawr yn ddarnau llai a'i wneud yn real, ar lefel unigol. Dysgais fy mod i'n hoffi gwelliant parhaus a gwella prosesau busnes. Cysylltu pobl â phroses a manteision posibl hynny fel sbardun mewnol ar gyfer llwyddiant.

3) Gwerthuso'n feirniadol sut mae diwylliant sefydliadol yn effeithio ar llwyddiant neu fethiant system rheoli ansawdd

Fe wnes i ailedrych ar ffactorau hylendid a damcaniaeth cymhelliant a chefais drafferth i benderfynu ar ddull priodol o gyflwyno fframwaith y system rheoli ansawdd (QMS). Gweithredais amcanion personol a thîm a oedd yn cydberthyn yn uniongyrchol. Ar y cam hwn cefais fy enwi gan y busnes yn hyfforddwr Rhagoriaeth Weithredol a mynychais nifer o weithdai 'trawsnewid', gyda'r broses hon yn addas ar gyfer cyflwyno'r neges yr oeddwn i wedi bod yn gweithio arni. Dechreuais ar y rhaglen hyfforddi 12 wythnos ac mae'r broses o roi'r fframwaith gweithredu ar waith fesul cam yn parhau ar y gweill o hyd. Dysgais am offer a thechnegau'n ymwneud â chreu gweledigaeth, cynnal cyfarfodydd sefyll dyddiol, rheolaeth weledol, archwiliadau proses aml-haen, cadarnhau proses (mynd – edrych – gweld), datrys problemau, dyddiadur safonol, lefelu llwyth gwaith, sgiliau a gallu amryddawn, arferion ac atgyfnerthiadau, a gweithredu cynllun cynnal.

Fe wnes i gaffael fy nysgu trwy enghreifftiau o'r byd go iawn a ategwyd gan ddamcaniaethau yn ymwneud ag: Arfer adfyfyriol (Brookfield), Ffactorau hylendid (Hertzberg), Disgwyliad Vroom (Vroom), Pennu nodau a pherfformiad (Locke), Addysgu pobl glyfar sut i ddysgu (Argyris)

Tystiolaeth

Rhagoriaeth weithredol

Arfarnu

Tystiolaeth tyst SOE

Cynllun cynnal 100 diwrnod

Newid trawsffurfiol, syniadaeth ddarbodus - Toyota

Y gwahaniaeth a wnaeth i mi

Gwnaeth yr effaith o ddysgu nifer o sgiliau allweddol gadarnhau fy nysgu. Rwyf wedi teimlo ers peth amser fod gennyf y sgiliau a gafwyd drwy ddysgu drwy brofiadau ond nad oeddwn i'n ymwybodol o hynny. Mae Cydnabod ac Achredu Dysgu (RAL) wedi mynd â mi gam ymhellach ac wedi achredu gwerth iddo. Ar ôl cwblhau fy meysydd dysgu a thraethawd adfyfyriol, rwyf wedi sylweddoli bod popeth rwyf wedi'i wneud, yn bersonol ac yn broffesiynol, ar ffurf adfyfyrio a dysgu drwy brofiadau, a bod hynny wedi siapia'r math o Reolwr ydw i heddiw.

Llofnod yr ymgeisydd:	Dyddiad:
3.1 Dylid atodi datganiad gan eich cyflogwr presennol neu gyn-gyflogwr ar daflen ar wahân	
Datganiad wedi'i atodi:	OES / NAC OES

GWIRIWCH HWN A'I DROSGLWYDDO I'R MENTOR ACADEMAIDD/CYNGHORYDD RAL I'W GWBLHAU A'I GYFLWYNO I YSGRIFENNYDD Y BWRDD RPEL.